# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 27 Chwefror 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(116)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 8 a 10 eu grwpio. Atebwyd cwestiynau 4 a 14 gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol. Trosglwyddwyd cwestiwn 15 ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd.

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd y cwestiwn.

**Cynnig I Atal Rheolau Sefydlog**

Dechreuodd yr eitem am 14.25

**NDM5177 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr

wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5176 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 5 Mawrth 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 14.26

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

## 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 14.30

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5171 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi pwysigrwydd cydnabod a dathlu hunaniaeth ddiwylliannol Gymreig;

2.Yn credu y dylid ystyried cyflwyno System Anrhydeddau Cymreig i gydnabod a gwobrwyo'r rhai sydd wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr i fywyd Cymru; a

3.Yn croesawu'r gefnogaeth gyhoeddus eang sy'n bodoli dros ddynodi Dydd Gwyl Dewi yn ddiwrnod o wyliau cyhoeddus yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau priodol i gyflawni'r nod hwnnw.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 5 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.29

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5172 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi'r effaith negyddol y gall amseroedd ymateb gwael gan ambiwlansys ei chael ar iechyd a lles cleifion;

2.Yn nodi bod 11 o orsafoedd ambiwlans wedi cau yng Nghymru ers 2008/09;

3.Yn mynegi pryder bod gormod o gleifion yng Nghymru yn aros yn hwy na'r amseroedd targed i ambiwlans ymateb;

4.Yn gresynu bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi gostwng cyfanswm nifer yr ambiwlansys brys sy'n gweithredu yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf;

5.Yn gresynu bod posibilrwydd y bydd yr ansicrwydd ynghylch ffurf gwasanaethau ambiwlans i'r dyfodol yn tanseilio'r broses o ad-drefnu'r GIG yng Nghymru sy'[n digwydd ar hyn o bryd.

6.Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gynyddu nifer yr ambiwlansys brys sy'n gweithredu yng Nghymru;

b) sicrhau bod gan Gymru rwydwaith digonol o orsafoedd ambiwlans ledled y wlad; ac

c) rhoi sicrwydd y bydd yr adolygiad Gweinidogol o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sy'n digwydd ar hyn o bryd yn cyflawni amseroedd ymateb gwell.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 36 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

‘a bod rhai cleifion nad ydynt yn cael eu cyfrif fel galwadau brys categori A yn aros am oriau mewn poen nes bod ambiwlans ar gael’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 6c), dileu ‘cyflawni amseroedd ymateb gwell’ a rhoi'r canlynol yn ei le:

‘:

i) cyflawni canlyniadau mesuradwy gwell i gleifion; ac

ii) archwilio pa mor briodol yw’r model annibynnol presennol’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 13 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru )**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 6:

‘buddsoddi i uwchsgilio a hyfforddi staff presennol y gwasanaeth ambiwlans i lefel parafeddygon.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 38 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5172 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi’r effaith negyddol y gall amseroedd ymateb gwael gan ambiwlansys ei chael ar iechyd a lles cleifion;

2.Yn nodi bod 11 o orsafoedd ambiwlans wedi cau yng Nghymru ers 2008/09;

3.Yn mynegi pryder bod gormod o gleifion yng Nghymru yn aros yn hwy na’r amseroedd targed i ambiwlans ymateb;

4.Yn gresynu bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi gostwng cyfanswm nifer yr ambiwlansys brys sy’n gweithredu yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf;

5.Yn gresynu bod posibilrwydd y bydd yr ansicrwydd ynghylch ffurf gwasanaethau ambiwlans i’r dyfodol yn tanseilio’r broses o ad-drefnu’r GIG yng Nghymru sy’[n digwydd ar hyn o bryd.

6.Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gynyddu nifer yr ambiwlansys brys sy’n gweithredu yng Nghymru;

b) sicrhau bod gan Gymru rwydwaith digonol o orsafoedd ambiwlans ledled y wlad; ac

c) rhoi sicrwydd y bydd yr adolygiad Gweinidogol o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sy’n digwydd ar hyn o bryd yn:

i) cyflawni canlyniadau mesuradwy gwell i gleifion; ac

ii) archwilio pa mor briodol yw’r model annibynnol presennol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**6. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.32

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5170 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1.Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn y GIG yn gadarn a digonol i gwrdd ag anghenion poblogaeth Cymru dros y tymor hir; a

2.Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r prinder meddygon drwy gyflwyno rhaglen o gymhellion ariannol i gynyddu hyfforddiant meddygon mewn ardaloedd lle y mae prinder neu lle y rhagwelir hynny.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 6 | 0 | 43 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo'r pwyntiau'n unol â hynny:

Yn nodi arolwg y Cyngor Meddygol Cyffredinol o feddygon iau yng Nghymru a oedd yn datgelu anghysonderau mawr yn safon yr hyfforddiant meddygol mewn ysbytai yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn meddyginiaethau a thechnegau meddygol sy'n fwy modern, i wella'r hyfforddiant a'r cyfleoedd addysgol i feddygon iau yn ysbytai Cymru a denu rhagor o staff meddygol i Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 25 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2 dileu 'gyflwyno' a rhoi 'ystyried cyflwyno' yn ei le

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 36 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y gallai'r pwysau ariannol sydd ar GIG Cymru ar hyn o bryd gyfrannu at sialensiau recriwtio.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 31 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.31

**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.39

**NDM5173 Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):**

Sgan mewn pryd - Sgan MRI o'r fron ar gyfer merched ifanc risg uchel

Daeth y cyfarfod i ben am 18:01

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2013**